

2023-2038



Cynllun Rheoli
Asedau
Corfforaethol
(CRhAC)



Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2038

Mynegai

- 1) Rhagair ar y cyd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr**
- 2) Cyd-destun Strategol ac Arweinyddiaeth**
- 3) Datganiad Gweledigaeth**
- 4) Prosiectau Mawr**
- 5) Cynllun Gweithredu**
- 6) Targedau a Dangosyddion Perfformiad**

1. Rhagair ar y cyd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr

Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi'i adnewyddu. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y byddwn yn rheoli, buddsoddi ynddo, ac yn addasu ein hystad eiddo i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel i'n trigolion - nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein hasedau eiddo yn sylfaenol i'r ffordd rydyn ni'n gwasanaethu ein cymunedau. Ar adeg o drawsnewid ar draws llywodraeth leol, mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn moderneiddio ein hystad i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, cyflawni ein hamcanion llesiant, a sicrhau bod ein hasedau'n parhau i fod yn addas i'r diben, yn ddiogel ac yn ariannol gynaliadwy. Trwy well data, cynllunio craffach, a chydweithredu ar draws gwasanaethau a phartneriaid, byddwn yn gwneud y gorau o bob ased sydd gennym.

Mae'r Cynllun hwn hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf dybryd ein hoes - yn enwedig yr argyfwng hinsawdd. Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon o'n hadeiladau, gwella effeithlonrwydd ynni, ac ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud â buddsoddi a gwaredu. Nid yw rheoli risg hinsawdd bellach yn ddewis; mae'n rhaid iddo fod yn rhan annatod o sut rydyn ni'n llunio dyfodol ein hystâd.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddilyn dulliau arloesol o adfywio, addysg a darparu gofal. O foderneiddio ysgolion drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, i ddarparu tai Gofal Ychwanegol ac adfywio canol ein tref, rydym yn defnyddio ein hasedau i alluogi canlyniadau gwell i bob grŵp oedran. Rhaid i'n hystad hefyd barhau i gefnogi cymunedau bywiog, denu mewnfuddsoddiad, a gweithredu fel llwyfan ar gyfer twf economaidd sy'n cynnwys pawb.

Rydym yn cydnabod yr angen i gyflawni'r gwerth mwyaf posibl o bob punt a wariwyd - gan sicrhau bod ein hystâd yn cefnogi gwytnwch ariannol hirdymor. Golyga hwn ein bod yn pahau i ad-drefnu ystadau lle bo hynny'n briodol, buddsoddi mewn adeiladau sy'n flaenoriaeth, a chanolbwyntio o'r newydd ar effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a thryloywder yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein hasedau.

Trwy'r Cynllun hwn, rydym yn nodi llwybr clir a chyflawnadwy er mwyn sicrhau bod ein portffolio eiddo yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, yn cefnogi gwasanaethau ystwyth ac ymatebol, ac yn sail i'n huchelgais i adeiladu Merthyr Tudful gwyrddach, tecach a mwy gwydn.



Ellis Cooper
Prif Weithredwr







Y Cyngorydd Brent Carter
Arweinydd y Cyngo

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful / **Merthyr Tydfil County Borough Council**

2. Cyd-destun Strategol ac Arweinyddiaeth

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod eiddo yn elfen hanfodol wrth gyflawni'r Cynllun Lles Corfforaethol ac mae'r delweddau canlynol yn dangos sut mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn gysylltiedig â'r strategaeth hon ac yn cefnogi'r strategaeth hon.

Thema Llesiant	Amcan	Deilliant Blaenoriaeth
Merthyr Tudful uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu 	Byddwn yn cryfhau'r ffordd yr ydyn ni'n galluogi pobl i dyfu a chyrraedd eu potensial.	Darparu amrywiaeth o gyfleoedd i holl drigolion Merthyr Tudful fel y gallant ennill y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu nodau mewn bywyd.
Merthyr Tudful iachach 	Byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol ac urddasol.	Cefnogi iechyd a llesiant emosiynol a chorfforol plant ac oedolion.
Merthyr Tudful diogel a llewyrchus 	Byddwn yn cefnogi'r modd y mae ein heconomi yn adfer ac yn tyfu.	Amrywio ein heconomi leol a chynyddu'i chydnerthedd ar gyfer heriau'r dyfodol drwy helpu i greu'r math cywir o fusnesau, gyda chefnogaeth y math cywir o seilwaith busnes.
Merthyr Tudful glân a gwyrdd 	Byddwn yn cefnogi'r dasg o greu amgylchedd glân a gwyrdd yn awr ac yn y dyfodol.	Gweithio gyda chymunedau i gynnal a gwella'r amgylchedd.

3

Mae'r rhain yn ein helpu ni i gyfrannu at y ffordd rydym yn cyflawni'r 7 nod cenedlaethol i Gymru drwy gymhwyso'r 5 ffordd o weithio.



Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hefyd yn cael ei lywio gan:

- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun y Gweithlu
- Y Strategaeth Ddigidol
- Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth

Mae'r meysydd blaenoriaeth cyffredinol, sy'n sail i'r holl waith sy'n gysylltiedig ag eiddo yn cynnwys:

- The Maintenance Strategy
- Y Strategaeth Cynnal a Chadw
- Strategaeth Llety Swyddfa
- Masnacheiddio
- Cydymffurfiaeth Statudol
- Ynni/Rheoli Carbon/Datgarboneiddio
- Gwarediadau ac Adolygu Eiddo

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn amlinellu'r dull o ymdrin â phrosiectau blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ysgolion, tai fforddiadwy, lleihau carbon ac ailddatblygu canol tref Merthyr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Rhaglen Gyfalaf a ffrydiau cyllido allanol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r prosiectau canlynol:

- Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (cyn Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif)
- Addysg Gyfrwng Gymraeg
- Cynllunio Lleoedd o Fewn Ysgolion
- Darpariaeth Gofal Plant ar y cyd
- Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned
- Mae hygyrchedd yn gweithio
- Gwella Cyflwr Ysgolion
- Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- Adfywio Canol Tref Merthyr
- Seilwaith Trafnidiaeth
- Deuoli'r A465 - Gorchymyn Prynu Gorfodol

- Uwchgynllun Cyfarthfa
- Adfywio Taf Bargod
- Datblygiad Parc Thomastown
- Datblygu Canolfan Addysg y Gymdogaeth
- Glynmill
- Safle Hoovers
- Cynllun Glan-yr-afon
- Cyfleuster gofal ychwanegol
- Safleoedd Datblygu Preswyl/Cynllun Hunanadeiladu Cymru
- Adolygiad Mynwent
- Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- Gwelliant Stoc Chwarae Sefydlog
- Ysgubor Halen / Depo Amnewid

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau ar Dudalen (ffigur 1) yn dangos sut mae'r blaenoriaethau rheoli asedau hyn yn cefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun Lles Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer eiddo yng nghydestun dylanwadau ac amcanion corfforaethol. Hefyd yn y Cynllun Rheoli Asedau hwn mae cynllun gweithredu a thargedau perfformiad, a fydd yn caniatáu i berfformiad a chynnydd gael eu mesur a'u rheoli'n effeithiol.

Egwyddorion datblygu cynaliadwy

Allwedd i gyflawni rheoli asedau da yw cydnabyddiaeth gorfforaethol o bwysigrwydd defnyddio asedau eiddo i gefnogi cyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae ymgorffori hynny'n llawn i weithrediad y Cyngor ar bob lefel yn sylfaenol i lwyddiant y Cynllun Rheoli Asedau hwn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn gweithredu'r pum ffordd o weithio yn ei gynllunio rheoli asedau. Mae'n canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd **hirdymor** cymunedau gan gynnwys sicrhau cartrefi ac ysgolion ar gyfer y dyfodol. Mae cynllunio strategol yn cael ei gynnal mewn perthynas â darparu mynwentydd hirdymor a gweithredu strategaethau i wella rheoli bioamrywiaeth a charbon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cydweithio rhwng Adrannau Gwasanaeth a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yn helpu i **atal** smaterion cymdeithasol rhag datblygu drwy weithio gyda'i gilydd i gyflwyno cynlluniau datblygu gan gynnwys cyfleuster Gofal Ychwanegol a datblygu'r hen Ganolfan Addysg Gymunedol i gefnogi aelodau sy'n agored i niwed o fewn y gymuned. Mae perthnasoedd gwaith â sefydliadau allanol yn cael eu cryfhau i ddarparu cyfleusterau mwy **integredig** i gefnogi cymunedau a helpu i atal materion fel digartrefedd, tloidi tanwydd a

cholli asedau hanesyddol.

Mae gwneud y penderfyniadau rheoli asedau cywir yn gofyn am fewnbwn amrywiol randdeiliaid. Mae **cynnwys** y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth yn flaenoriaeth uchel a gynhelir drwy ymgynghoriadau statudol megis y broses Gynllunio, ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion a strategaethau fel Uwchgynllun Canol Trefi neu drwy grwpiau â ffocws fel holiaduron staff ar gyfer gweithio hyblyg neu drafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio adeiladau y byddant yn eu defnyddio. Mae cynnwys rhanddeiliaid yn hanfodol i lywio penderfyniadau rheoli asedau priodol ac mae'n rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau hwn.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn archwilio cyfleoedd i **gydweithio** â'r gymuned, sefydliadau allanol, Llywodraeth Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a sefydliadau cyhoeddus eraill i weithio gyda'i gilydd i gyflawni prosiectau er budd y gymuned ehangach. Enghraifft yw defnyddio tir ym mherchnogaeth y Cyngor i adeiladu fferm solar i gyflenwi ynni i ysgol a gwifren breifat unrhyw ynni dros ben i ysbyty cyfagos. Mae yna lawer o enghreifftiau o gydweithio ac yn bwysig, mae'r Cyngor yn rhan o Grŵp Rheoli Asedau Cwm Taf sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i drafod cyfleoedd posib i gydweithio.

Arweinyddiaeth

Ar lefel strategol, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cymryd cyfrifoldeb dros Reoli Asedau. Bydd hwn yn cynnwys ymgorffori i weithgareddau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a chadeirio'r Bwrdd Rheoli Asedau.

Ar lefel wleidyddol, mae'r Aelod Cabinet dros Gynaliadwyedd Ariannol, Asedau a Masnachol yn cymryd cyfrifoldeb dros Reoli Asedau fel rhan o'u portffolio. Mae hwn yn cynnwys bod yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Asedau, ymgorffori egwyddorion rheoli asedau da yng ngwaith y Cabinet a'r Cyngor a chefnogi/herio swyddogion i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun hwn.


Ar lefel weithredol, mae'r Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau ac Ystadau) yn cymryd cyfrifoldeb am reoli gweithredol y Cynllun Rheoli Asedau ac yn ymgorffori'r egwyddorion yn llawn mewn gweithgareddau Eiddo Corfforaethol a gweithgareddau ehangach y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyflawni camau, adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu a chyfrannu at Ddangosyddion Perfformiad ac adrodd arnynt.

Yn ogystal â'r rhai a grybwyllir uchod, mae'r **Bwrdd Rheoli Asedau** yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Adran Ddysgu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Eiddo Corfforaethol, Priffyrdd a Pheirianeg, Cynllunio, Parciau, Tai, Cyfrifeg, Adfywio, Rheolwr Masnachol, Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter i adolygu'r strategaeth a'r prosiectau mawr ac i yrru cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a'r dangosyddion perfformiad.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Craffu cyn cael ei adrodd i'r Cyngor i'w fabwysiadu. Yn ogystal, bydd adroddiad diweddar blyneddol yn rhoi

diweddariad yn erbyn y cynllun gweithredu a'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

CORPORATE ASSET MANAGEMENT PLAN 2023-2038



3. Datganiad Gweledigaeth


Gweledigaeth y Cyngor yw bod y portffolio eiddo wedi'i alinio â blaenoriaethau corfforaethol a gofynion gwasanaeth, lle gwneir buddsoddiad priodol mewn prosiectau cyfalaf a lle mae'r portffolio yn cael ei gynnal yn effeithlon, yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch.

Portffolio Asedau

- Mae cyfanswm arwynebedd yr holl eiddo o dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymestyn i oddeutu 886 hectar (2,189 erw) ac mae'n cynnwys ystod amrywiol o eiddo, gan gynnwys hen Gynlluniau Adfer Tir, Ysgolion, Swyddfeydd, Depots, Cartrefi Gofal, Parciau, Mangreoedd Masnachol, Mynwentydd a Seilwaith Priffyrdd, er nad yw'n eithrio'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig (a gwmpesir gan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP)).
- Cyfanswm nifer yr asedau tir 711
- Cyfanswm nifer yr adeiladau 362
- Cyfanswm arwynebedd llawr yr adeiladau 171,986 m²
- Cyfanswm Gwerth Asedau £214,337,712.00
- Cyfanswm cynnal a chadw ôl-groniad £43,090,628


Mae'r portffolio eiddo wedi'i ddyrannu i'r meysydd gwasanaeth priodol fel y nodir isod:

% y Tir fesul Adran



- Neighbourhood Services 33%
- Economic Development and Regeneration 11%
- Corporate 26%
- Social Services <1
- Engineering, Highways, Transport 19%
- Education 11%
- Housing & Public Protection <1%
- Leisure Culture & Environment <1

% o Arwynebedd Llaur yr Adeilad fesul Adran



- Neighbourhood Services 5%
- Economic Development and Regeneration 22%
- Corporate 12%
- Social Services 5%
- Engineering, Highways, Transport 4%
- Education 52%
- Housing & Public Protection <1%

Rôl Eiddo Corfforaethol

Mae Eiddo Corfforaethol yn cynnwys dau dîm, Ystadau/Rheoli Asedau, a Gwasanaethau Adeiladu/Rheoli Prosiectau. Mae'r Tîm Rheoli Ystadau/Asedau yn delio â phob mater Ystadau, gan gynnwys caffael a gwaredu eiddo, materion Landlord a Tenant ynghyd â rheoli asedau eiddo strategol.

Mae'r Tîm Gwasanaethau Adeiladu / Tîm Rheoli Prosiect yn rheoli'r holl ofynion cynnal a chadw adweithiol, yn gweinyddu'r contractau cynnal a chadw cylchol ac yn delio â rheoli ynni. Mae gan y tîm hwn hefyd rôl arolygu i adrodd ar gyflwr yr adeiladau a sicrhau bod pob adeilad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth rheoli prosiect llawn ac yn cyflawni prosiectau adeiladu.

Rôl meysydd gwasanaeth

- Sicrhau bod person enwebedig yn cael ei benodi i weithredu fel rheolwr adeiladu ar gyfer yr holl faterion sy'n gysylltiedig ag adeiladu.
- Sicrhau bod rheolwyr adeiladu yn derbyn hyfforddiant Rheolwr Adeiladu pan fyddant yn cael eu penodi.
- Cynnal cyllidebau a rheolaeth weithredol yr adeilad o ddydd i ddydd.
- Rhoi gwybod am broblemau cynnal a chadw adeiladau mewn modd amserol i Eiddo Corfforaethol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch mewn cysylltiad â gweithrediad arferol adeiladau.
- Rheoli contractwyr tra ar y safle a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Rheoli Asbestos, gan gynnwys sicrhau bod copi caled o'r Gofrestr Asbestos ar gael bob amser.

- Gweithredu fel deiliad allwedd a bod yn gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad.
- Bod yn gyfrifol am ddefnydd ynni.
- Sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal i safon dderbyniol.
- Sicrhau bod gennym gytundeb gan Eiddo Corfforaethol cyn ymrwymo adnoddau ar gyfer unrhyw newidiadau neu waith gwella arfaethedig.
- Cysylltu ag Eiddo Corfforaethol ar gyfer pob symudiad / adleoli swyddfa arfaethedig.
- Cysylltu ag Eiddo Corfforaethol ar bob mater Landlord a Tenant.
- Cyflawni dyletswyddau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (diogelwch tân) 2005.

Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw

Mae cyllidebau refeniw atgyweiriadau a chynnal a chadw ar gyfer adeiladau yn cael eu cadw gan yr adrannau cyfrifol ac maent ar hyn o bryd yn rheoli'r cyllidebau hyn yn uniongyrchol. Mae ceisiadau cynnal a chadw adweithiol yn cael eu gweinyddu drwy'r ddesg gymorth ganolog ac mae cytundebau cylchol sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth statudol yn cael eu rheoli gan Eiddo Corfforaethol trwy'r Tîm Gwasanaethau Adeiladu.

4. Prosiectau Mawr

Mae cyflawni prosiectau cyfalaf mawr yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer eiddo ac yn cefnogi'r amcanion corfforaethol ehangach. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu'n uniongyrchol o'r Rhaglen Gyfalaf ceir rhagor o fanylion am y rhaglen yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae'r prosiectau yn cael eu nodi fel blaenoriaethau gan adrannau gwasanaeth ac yn cael eu trafod a'u cytuno yn gorfforaethol mewn gweithdai cyfalaf er mwyn blaenoriaethu. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r Cynllun Rheoli Asedau hwn wedi'u halinio'n agos. Isod ceir darn o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor sy'n amlinellu'r Rhaglen Gyfalaf ac yn helpu i ariannu'r prosiectau mawr canlynol:

Description	2025/26 £'000	2026/27 £'000	2027/28 £'000	2028/29 £'000	Total £'000
Capital Expenditure					
Education	17,930	6,646	2,219	12,823	39,618
Physical Regeneration	900	900	900	900	3,600
Transport Infrastructure	5,497	5,388	4,988	4,988	20,861
Land and Buildings	2,056	450	450	450	3,406
Miscellaneous	2,155	1,897	1,897	1,897	7,846
Expenditure funded by Interest Free Loans	1,293				1,293
Total	29,831	15,281	10,454	21,058	76,624
Financed By					
Borrowing	27,397	12,847	8,020	18,624	66,888
Capital Grants	1,934	1,934	1,934	1,934	7,736
Capital Receipts	500	500	500	500	2,000
Total	29,831	15,281	10,454	21,058	76,624

*mae'r Rhaglen Gyfalaf a ddangosir yn y tabl uchod yn eithrio prosiectau a ariennir gan grant

Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy



Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a elwid gynt yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) yn flaenoriaeth strategol hanfodol i helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei amcanion a nodir yn y Strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau (RARS), yn benodol; datblygu'r amgylchedd ar gyfer dysgu a sicrhau bod amgylcheddau addysgu a dysgu priodol, o ansawdd uchel ar gael, sy'n darparu digon o leoedd ysgol i bob plentyn a pherson ifanc.

Band A 2014-2019

Cwblhawyd gwaith adnewyddu mawr yn ysgol uwchradd Afon Taf a oedd gwerth tua £12 miliwn o dan Fand A a chyflawnwyd y gwaith o drosglwyddo a chwblhau'r prosiect ym mis Awst 2017.

Cwblhawyd ysgol newydd Ysgol Y Graig gwerth tua £7 miliwn fel prosiect Band A olaf yr

awdurdod a throsglwyddwyd a chwblhawyd y prosiect ym mis Medi 2021. Roedd hwn yn cynnwys cyd-leoli plant a oedd o oed cyn-ysgol Dechrau'n Deg i Blant Bach Trefechan o fewn yr ysgol newydd a gafodd ei sicrhau gan gyllid grant cyfalaf Cynnig Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru.

Band B 2019-2026

Cymeradwywyd y prosiectau canlynol i'w cynnwys yn rhaglen Band B Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor ym mis Ebrill 2019.

- Pen y Dre 11-16 Prosiect adnewyddu mawr ysgol uwchradd
- 3-16 VA Ysgol Gatholig Prosiect Adeiladu Newydd
- Ysgol Gynradd Goetre 3-11 Prosiect Adeiladu Newydd

Rhaglen Amlinelliad Strategol 2024-2033

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Rhaglen Band B Ysgolion yr Unfed Ganrof ar Hugain wedi ei ail-frandio'n Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda'r tri chyn brosiect Band B i'w cwblhau yn 2026, gan drosglwyddo i'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Yn dilyn hwn, ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor brosiect i adnewyddu hen adeilad y ganolfan ieuenctid yn Afon Taf er mwyn darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn yr ysgol a phrosiect adeiladu newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Greenfields, i'w gynnwys fel rhan o'r Rhaglen Amlinelliad Strategol gwerth £201 miliwn wedi'i diweddaru.

Ym mis Awst 2024 cymeradwywyd Rhaglen Dreigl Amlinelliad Strategol 9 mlynedd 2024-2033 gan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr hen brosiectau Band B a'r prosiectau ychwanegol ar gyfer Afon Taf, sydd i'w cwblhau erbyn Medi 2026 ac Ysgol Arbennig Greenfields, sydd i'w cwblhau erbyn Medi 2029. Ystyriwyd prosiectau posibl y tu hwnt i'r amserlen hon yn brosiectau yn yr arfaeth i'w harchwilio yn y blynyddoedd sydd ar ddod, gyda chymeradwyaethau perthnasol y Cyngor a Llywodraeth Cymru i'w ceisio ochr yn ochr â'r broses achos busnes ac adolygiadau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog.

Ym mis Mehefin/Gorffennaf 2025, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ddiweddariad i'r Rhaglen Dreigl Amlinelliad Strategol i gynnwys prosiect ysgol gynradd Cyfrwng Gymraeg ychwanegol ym mlynnyddoedd 4-6 o'r Rhaglen ar gyfer Ysgol Egin Cyfrwng Gymraeg newydd. Darparwyd cymeradwyaethau hefyd ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau Pen y Dre a'r Bendigaidd Carlo Acutis i ddelio â phwysau ar y safle.

Mae'r prosiectau cymeradwy a gynhwysir fel rhan o'r Rhaglen Dreigl Amlinelliad Strategol ar wahanol gamau adeiladu neu yn y cyfnod cyn-adeilady o ddatblygu'r cynlluniau dylunio, fel y nodir isod.

Yn Awst 2022, cychwynnodd cam un o'r gwaith ar **prosiect adnewyddu mawr Ysgol Uwchradd Pen y Dre**, yr ysgol gyntaf yng Nghymru i'w hadnewyddu ar ffurf Garbon Sero Net. Cwblhawyd gwaith Cam 1 a 2 ym mis Ionawr 2024 a Mai 2025 yn y drefn honno, gyda thrydydd cam – sef cam olaf y prosiect - wedi'i drefnu i'w gwblhau erbyn Hydref 2026.

Dechreuodd y gwaith ar brosiect ysgol **3-16 y Bendigaidd Carlo Acutis newydd** ar y safle

yn Haf 2023 ac roedd yr holl ddisgyblion oedran uwchradd wedi'u lleoli ar safle Cam 1 isaf Campws yr Esgob Hedley o fis Medi 2023 ymlaen i ganiatáu i'r gwaith yng Ngham 2 uchaf ddiwydd. Disgwylir i brif gam y prosiect hwn gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2026, pan fydd yr holl ddisgyblion o'r pedwar safle presennol (yr Esgob Hedley, Sant Aloysius, Sant Illtud a'r Santes Fair) wedi'u lleoli yn yr ysgol newydd ar safle uchaf Cam 2 Campws presennol yr Esgob Hedley. Disgwylir i'r gwaith sy'n weddill i safle Cam 1 i greu cyfleusterau chwaraeon a maes parcio ar gyfer yr ysgol gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2027.

Dechreuodd prosiect Ysgol **Gynradd Goetre** ar safle Lôn Goitre ddiwedd Haf 2024. Disgwylir i'r prosiect hwn, sy'n cynnwys cyd-leoli darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar a chynlluniau i ddatblygu cyfleusterau cymunedol fel llyfrgell, gardd a chegin gymunedol, gael ei gwblhau erbyn Haf 2026.

Bydd gwaith i gynyddu capasiti yn ysgol **uwchradd Afon Taf** i ateb y galw am leoedd i ddisgyblion yn cael ei wneud i adnewyddu hen adeilad y ganolfan ieuencid ar y safle, gan greu pedair ystafell ddosbarth ychwanegol. Mae'r prosiect hwn ar hyn o bryd yn y cam datblygu dylunio ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn barod ar gyfer Medi 2026.

Cynigir cwblhau'r prosiect newydd i ddatblygu **ysgol arbennig Maes Glas** pwrpasol ar safle Project Heartlands erbyn Medi 2029. Mae ardal o faint addas wedi'i nodi ar lwyfandir isaf safle Project Heartlands, gan gynnwys, datblygu'r adeilad treftadaeth ar y safle lle bydd yr ysgol wedi'i lleoli. Bydd astudiaethau dichonoldeb yn cael eu cynnal ar safle newydd arfaethedig yr ysgol yn 2025 a fydd yn llywio'r broses ddylunio, ac ar ôl cwblhau'r rhain bydd ymgynghoriad statudol ar drefn ysgolion yn cael ei gynnal fel rhan o'r prosesau achos busnes sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Addysg Cyfrwng Cymraeg



Mae'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ffrwd ariannu strategol allweddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i dargedu twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg ledled Cymru yn unol ag uchelgeisiau Cymraeg 2050.

Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i gynnig am arian cyfalaf Llywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect canlynol yn **Ysgol Rhyd Y Grug**; ail-gyfluniad mewnol i ddarparu lleoedd disgyblion ychwanegol i greu ysgol 1.5 dosbarth, lleoedd cyn-feithrin p/t ychwanegol, Canolfan Adnoddau Dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion cyfrwng Gymraeg, ystafell gymunedol bwrpasol, a chydleoli lleoliad gofal plant Cylch Meithrin cyfrwng Gymraeg ar safle'r ysgol. Disgwylir i gontractwyr gael eu penodi i ddechrau ar y safle ar gyfer y prosiect hwn yn Haf 2025 i'w gwblhau erbyn Gwanwyn / Haf 2026. Yn y tymor hwy mae dyheadau i ddatblygu darpariaeth mynediad dau ddosbarth yn yr ysgol yn unol â'r uchelgeisiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor 2022-2032.

Mae arian cyfalaf Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i sicrhau i adnewyddu'n rhannol un o adeiladau'r ysgol gynradd sydd wedi'u gwagio fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, i'w ail-bwrpasu fel safle dros dro ar gyfer **egin ysgol gynradd yng** ngogledd y fwrdeistref sirol. Fel rhan o'r prosiect hwn, er mwyn dechrau twf yr ysgol newydd hon, defnyddiodd yr awdurdod arian cyfalaf mewnol i ailbwrpasu hen adeilad Meithrinfa'r Gurnos i ddod yn 'Safle'r Gurnos', gan ddarparu Cylch Meithrin ar gyfer gofal plant cyfrwng Gymraeg o fis Ionawr 2023 a darpariaeth addysg feithrin rhan-amser fel darpariaeth lloeren i Ysgol Santes Tudful, o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb i'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer darpariaeth barhaol yr

ysgol newydd cyfrwng Cymraeg sy'n gweithredu ar hyn o bryd o Safle'r Gurnos, nodwyd y byddai stoc adeiladau presennol yr Awdurdod Lleol yn darparu opsiynau tymor byr a chanolig yn unig ar gyfer lleoliad yr egin ysgol newydd cyfrwng Gymraeg. Roedd y dichonoldeb yn archwilio adnewyddu adeiladau presennol yn ogystal â dymchwel adeiladau presennol ac ailwrpasu'r safleoedd hynny ar gyfer opsiynau adeiladu newydd.

Daeth yr astudiaeth ddichonoldeb i'r casgliad mai'r ateb hirdymor a ffefrir yw creu ysgol gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Goetre erbyn Medi 2032. Fel ateb dros dro gall disgyblion aros ar safle Safle'r Gurnos tan haf 2027, ac o fis Medi 2027 byddant yn cael eu hadleoli i hen safle ysgol gynradd Sant Aloysius ar ôl cwblhau gwaith adnewyddu gwerth £3M a ariennir drwy Grantiau Cyfalaf WM.

Fel y nodwyd uchod, mae'r ysgol gynradd vyfrwng Gymraeg newydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o Raglen Dreigl y Rhaglen Amlinelliad Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Mae astudiaeth ddichonoldeb i **ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Gymraeg** yn mynd rhagddi a sefydlwyd gweithgor rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyflwyniadau'r Rhaglen Amlinelliad Strategol yn 2024 i ddeall yn well y gofynion ar gyfer darpariaeth uwchradd Cyfrwng Gymraeg yn y rhanbarth yn y tymor byr, canolig a hir. Mae trafodaethau gyda Rhondda Cynon Taf ac Awdurdodau Lleol eraill yn parhau er mwyn asesu opsiynau hyfyw ar gyfer sicrhau digon o leoedd ysgol uwchradd Cyfrwng Gymraeg i ddisgyblion Merthyr dros y tymor hir, boed hynny ym Merthyr neu y tu allan i'r sir fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor sicrhau cynydd yn y lleoedd ysgol uwchradd sydd ar gael yn y deng i bymtheg mlynedd nesaf, a nod y gweithgor yw cytuno ar restr fer o opsiynau ymarferol y gellir eu datblygu ymhellach cyn cytuno ar yr opsiwn a ffefrir. Mae gan hwn oblygiadau posibl i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor rhwng nawr a 2036.

Cynllunio Lleoedd Ysgol



Mae cynlluniau ar waith i gynyddu niferoedd yn **ysgol uwchradd Afon Taf** o fis Medi 2026 fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a nodwyd uchod a fydd yn darparu digon o leoedd ysgol dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Mae disgwyl i'r gwaith i gyd-leoli'r **Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)** Cyfnod Allweddol 3 a 4 ar safle Tŷ Dysgu Dowlais, gan greu PRU 3-16 i gyd, fynd rhagddo erbyn Haf 2025.

Mae nifer y disgyblion yn **Ysgol Arbennig Greenfields** yn parhau i gynyddu ac agorodd darpariaeth ôl-16 lloeren newydd yn Nhŷ Homfray ym mis Medi 2024 gyda dwy ystafell ddosbarth arall y gellir ei ddatgymalu ar brif safle'r ysgol o fis Medi 2025 ymlaen. Mae opsiynau pellach i sicrhau digon o lety nes bod yr ysgol newydd yn barod ym mis Medi 2029 yn cael eu harchwilio.

Nod strategaeth Addysg Feithrin y Cyngor yw darparu addysg feithrin ran-amser i bob plentyn tair oed ac addysg feithrin llawn amser i bob plentyn pedair oed. Er mwyn cyflawni'r nod strategol hwn a sicrhau tegwch yn y ddarpariaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol, cwblhawyd estyniad dosbarth meithrin yn **Ysgol Gynradd Caedraw** ym mis Gorffennaf 2023, gyda darpariaethh Cyfrwng Gymraeg ychwanegol wedi'i sicrhau yn yr **egin ysgol Cyfrwng Gymraeg** o fis Ebrill 2023, ac yn **Ysgol Rhyd y Grug** o fis Medi 2026.

Mae darpariaeth y Ganolfan Adnoddau Dysgu Ychwanegol ar gyfer disgyblion ar y Sbectrwm Awtistiaeth wedi'i darparu yn Ysgol Gynradd Dowlais ac Ysgol Uwchradd Cyfarthfa o fis Medi 2023, i ddechrau fel peilot, cyn sefydlu'r darpariaethau hyn yn ffurfiol o fis Ebrill 2025. Mae gwaith cyfalaf a ariennir gan grant cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi digwydd i ail-ffurfweddu manau mewnol yn yr ysgolion hyn er mwyn sicrhau bod safle sy'n addas i'r diben yn cael ei ddarparu, gan ateb anghenion y disgyblion.

Mae adolygiad o'r lleoedd ysgol a ddarperir dros y tymor canolig i'r tymor hir yn mynd rhagddo gyda'r nod o werthuso a oes digon o leoedd i fodloni'r galw ar draws pob sector, a nodi atebion i unrhyw faterion o ormodedd neu ddigonolrwydd. Bydd hwn yn parhau i lywio'r Cynllun Rheoli Asedau a rhaglen gyfalaf y Cyngor lle bo angen.

Darpariaeth gofal plant ar y cyd



Mae nifer o brosiectau i gyd-leoli lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar ar safleoedd ysgolion wedi'u cwblhau gan ddefnyddio grantiau Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys cyd-leoli: Plant Bach Trefechan yn Ysgol Gynradd Y Graig (Hydref 2021); Plant oed cyn-ysgol Bedlinog yn Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog (Gwanwyn 2022), ac ysgol gynradd Dwylo Bach ar yr un safle ag Ysgol Gynradd Dowlais (Gwanwyn 2023).

Mae'r lleoliad gofal plant Cylch Meithrin yn hen ysgol feithrin y Gurnos hefyd wedi'i gydleoli â'r ddarpariaeth yr egin ysgol feithrin ar Safle'r Gurnos, Ysgol Santes Tudful (Gwanwyn 2023).

Mae grantiau Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru hefyd wedi'u cymeradwyo, i gefnogi'r gwaith o gydleoli lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Goetre a'r Cylch Meithrin yn Ysgol Rhyd y Grug, erbyn Gwanwyn/Haf 2026, a nodir yn yr adrannau uchod, a hefyd ar gyfer lleoliad gofal plant Cylch Meithrin i gael ei gydleoli yn Ysgol Santes Tudful erbyn Gwanwyn 2026.

Ysgolion Bro



Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid grant i'r Cyngor ar gyfer prosiectau Ysgolion Bro yn 2022/23 ac yn dilyn proses geisio, dyfarnwyd arian i wyth ysgol ar gyfer prosiectau i'w cwblhau erbyn Haf 2023.

Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys tair ystafell gymunedol bwrpasol, siop goffi gymunedol a chyfraniad tuag at fws mini cymunedol, Bocs Bwyd Mawr gyda siop/canolfan gymunedol ychwanegol, llifoleuadau newydd, Ardal Gemau Aml-ddefnydd wedi'i adnewyddu gyda llifoleuadau newydd ac adnewyddu cwrt tenis.

Sicrhodd yr awdurdod hefyd gyllid ar gyfer chwe phrosiect CFS rhwng 23/24 a 24/25. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Goetre ac Ysgol Rhyd y Grug fel rhan o'r prosiectau mwy a nodwyd uchod. Roedd y prosiectau ychwanegol hyn hefyd yn cynnwys ystafell gymunedol bwrpasol arall, dau Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd, ardal awyr agored wedi'i gorchuddio â chanopi a llwybr trimio cymunedol.

Mae cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf CFS ychwanegol wedi'i gymeradwyo gan LIC ym mis Gorffennaf 2025 i greu canolfan amlasiantaeth yn Ysgol Gynradd Dowlais ac ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Gymunedol Abercanaid ac Ysgol Gynradd Troedyrhiw. Rhagwelir y

bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn Hydref 2026.

Gwaith Hygyrchedd, Deddf Cydraddoldeb 2010



Mae gwaith addasu yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer ysgolion y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwell hygyrchedd i ddisgyblion ag anghenion symudedd. Mae'r gwaith hwn yn angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion allu cael mynediad at le ysgol priodol yn y brif ffrwd ac yn cynnwys; lifftiau, rampiau allanol a mewnol, drysau lledu, toiledau hygyrch, cawod/ystafell newid DDA, a gwaith addasu ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg. Mae blaengynllunio'r rhaglen yn cynnwys cydweithio â gwasanaethau Therapi Galwedigaeth ym maes lechyd i gytuno ar flaenoriaethau gan gynnwys diogelu adeiladau ysgol yn y dyfodol lle bo'n bosibl. Fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol Addysg, mae cynllun pum mlynedd ar gyfer gwaith hygyrchedd yn cael ei greu i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau i ddiwallu anghenion rhagamcanedig disgyblion wrth iddynt fynd trwy'r system addysg yn ogystal â safleoedd diogelu'r dyfodol lle bo hynny'n bosibl.

Rhaglen Arolwg Cyflwr



Mae rhaglen arolwg cyflwr cynhwysfawr a chyfannol wedi'i chynnal ar gyfer pob ysgol ac adeilad addysg dros 3 blynedd ariannol rhwng 2021 a 2024. Ymgwymerwyd â'r rhain fel rhan o'r rhaglen gorfforaethol dreigl 5 mlynedd ehangach ar draws holl adeiladau awdurdodau lleol 2021-2026. Mae'r arolygon o ysgolion / adeiladau addysg yn gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer dysgu mewn perthynas â'r adeilad a'r amgylchedd cyfagos yn ogystal ag asesu cyflwr yr eiddo.

16

Cytunwyd ar flaenoriaethu'r adeiladau o fewn y rhaglen yn seiliedig ar asesiad o flaenoriaethau strategol o fewn y portffolio Dysgu yn ogystal ag adlewyrchu adeiladau gydag arolygon yn hwyr.

Mae'r rhaglen arolwg cyflwr yn hanfodol i lywio strategaeth gynnal a chadw barhaus ar gyfer adeiladau ysgol a buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol o ran cynnal a chadw dros y tymor canolig a'r tymor hir, gan gynnwys defnyddio grant Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol.

Mae rhaglen flynyddol o gynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion wedi'i datblygu gan ddefnyddio cyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwaith blaenoriaeth yn cael ei ymdrin ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu rhaglen cynnal a chadw cyfalaf 5 mlynedd dangosol ar gyfer ysgolion yn amodol ar argaeledd cyllid cyfalaf dros y cyfnod hwn.

Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel



Wrth i'r swm o garbon deuocsid y mae cymdeithas ddynol wedi'i allyrru i atmosffer y ddaear wedi cynyddu, gwelwyd hefyd gynnydd yn nymheredd byd-eang. Heb leihad mewn allyriadau CO2 bydd y ddaear yn troi'n gynhesach a chynhesach. Mae'r cynnydd hwn yn y tymheredd byd-eang yn achosi i'n hinsawdd a'n planed newid. Mae'r newidiadau hyn i'n hinsawdd yn cynnwys: hafau poethach sychach, gaeafau cynhesach gwlypach, digwyddiadau tywydd mwy eithafol a chynnydd yn lefel y môr. Mae hwn yn achosi: mwy o sychder a than gwyllt, stormydd cryfach, mwy o donnau gwres, llifogydd, cwrelau wedi'u difrodi, llai o eira a rhew, toddi rhew parhaol, newidiadau mewn cylchoedd bywyd planhigion a newidiadau i fudo anifeiliaid a chylchoedd bywyd.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030 mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn siapio ein bywydau. Wrth i nwyon tŷ gwydr gynyddu, mae Merthyr Tudful wedi profi holl symptomau allweddol newid yn yr hinsawdd a wnaed gan ddyn, gan gynnwys patrymau tywydd afreolaidd, llygredd aer, tonnau gwres a newidiadau mewn bioamrywiaeth.

Mae hyn hefyd wedi dod â chostau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig gan fod busnesau a thrigolion wedi cael trafferth gyda materion fel difrod llifogydd ac ymyrraeth i'w bywydau bob dydd.

Bydd Cyngor Merthyr Tudful yn cefnogi'r uchelgais hon drwy gynnal nifer o fentrau a phrosiectau datgarboneiddio sy'n lleihau Allyriadau Carbon ei weithrediadau a'u heffeithiau ar Newid yn yr Hinsawdd.

Rydyn ni eisoes wedi dechrau'r daith. Mae llawer o fentrau datgarboneiddio eisoes ar y gweill megis:

- Gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau.
- Cynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle
- Treialu defnyddio cerbydau trydan a gosod goleuadau stryd ynni-effeithlon newydd.
- Hyfforddi staff a gwella ymwybyddiaeth o Leihau Carbon o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Er mwyn cyflawni ein nod Carbon Sero Net, mae angen i'r Cyngor leihau faint o garbon y mae'n ei allyrru a chynyddu faint o garbon y mae'n ei amsugno, ac mae gan ein portffolio eiddo gyfraniad mawr i'w wneud i'r ddau nod hyn, o ystyried bod allyriadau o'n hadeiladau ar hyn o bryd yn cynrychioli cyfran fawr o gyfanswm allyriadau'r cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi), a bydd angen mwy o dir i wrthbwysu'r carbon yr ydym yn dal i ddisgwyl ei allyrru erbyn ein dyddiad targed 2030. Yn yr un modd, bydd eiddo yn chwarae rhan sylfaenol wrth helpu i gyflawni ein nodau carbon, gan y bydd angen i ni adfer a newid sut rydym yn rheoli'r tir yr ydym yn berchen arno ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Asedau hefyd yn cynnwys:

- 1) Ymgymryd â rhaglen dreigl o astudiaethau dichonoldeb ar draws ein hystad i nodi cyfleoedd pellach i weithredu technolegau carbon isel (h.y. pypmiau gwres, solar ffotofoltäig)
- 2) Dylunio ac adeiladu pob adeilad newydd i weithredu'n garbon isel
- 3) Trosi adeiladau i atebion gwres carbon isel fel pypmiau gwres daear ac aer

Adfywio Canol Tref Merthyr



Bydd Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Merthyr Tudful yn parhau i adeiladu ar gyflawni'r prosiect sylweddol a chyson dros y 18 mlynedd diwethaf a bydd yn cefnogi'r Dref i ddo yn fasnachol hyfyw a hunangynhaliol. Yn ogystal â gwneud lleoedd, mae trafndiaeth yn ystyriaeth allweddol o'r cynllun ac mae cyfres o'r prosiectau a nodwyd naill ai'n ymwneud â gwelliannau trafndiaeth neu angen addasiadau i seilwaith trafndiaeth i gael eu gwireddu'n llawn. Mae'r prosiectau Adfywio corfforol a nodwyd i'w datblygu a'u cyflawni yn cynnwys datblygiadau tai marchnad a fforddiadwy, tir i'r de o'r coleg, Ailddatblygu Coleg Merthyr Tudful, YMCA, Safle Ysbyty Sant Tudful, Ysbyty Cyffredinol, Synagog, Neuadd y Glowyr, Theatr Frenhinol a datblygiadau menter pellach sy'n adeiladu ar lwyddiant Howfields, 121 a 143b (Cocos).

Mae'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd yn uchelgeisiol ac yn un hirdymor. Mae'n gynllun 15 mlynedd sydd â'r potensial i drawsnewid Merthyr Tudful a'r rôl y mae'n ei chyflawni i Brifddinas-Ranbarth a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae cyflawni dau brosiect yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun Creu Lleoedd. Y prosiectau hyn yw'r rhai mwyaf uchelgeisiol o ran effaith a byddent yn trawsnewid Merthyr Tudful a'r rôl y mae'n ei chyflawni ar hyn o bryd yn y Brifddinas-ranbarth. Y prosiectau hyn yw e-ddatblygiad Canolfan Siopa Santes Tudful a'r Orsaf Drenau (Coridor Cyfnewidfa) i wella cysylltedd rhwng bws a rheilffordd. Safle Glebeland oedd y trydydd prosiect sydd bellach wedi'i gwblhau

Lliniaru cerbydau gelyniaethus canol y dref. Bydd y Swyddfa Gartref yn ceisio cyflwyno'r PROTECT DUTY cyn bo hir o ganlyniad i ymosodiadau terfysgol ledled y DU. Bydd y ddeddfwriaeth yn newid er mwyn gwella amddiffyniad a diogelwch mannau cyhoeddus a lleoliadau eraill y mae'r cyhoedd yn eu mynychu ac yng ngoleuni hwn, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn bwrw ymlaen i adolygu seilwaith Canol Trefi i nodi pa fesurau sydd eu hangen i'w gweithredu. Bydd Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner, gan gynnwys Heddlu De Cymru, a bydd yn adrodd ar yr holl ddatblygiadau i'r Grŵp Diogelwch Parodrwydd Amddiffynnol.

18

Seilwaith Trafndiaeth



Ar ôl cyflwyno Cyfnewidfa Fysiau newydd Merthyr Tudful yn llwyddiannus fel rhan o'r uwchgynllun newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer canol y dref, mae'r ffocws yn troi at yr orsaf reilffordd a'r cyfle i wella'r cyfleuster porth trafndiaeth allweddol hwn yn gorfforol. Ochr yn ochr â darparu cyfnewidfa mor ddi-dor â phosibl rhwng dulliau trafndiaeth, mae'r posibilrwydd o wella'r cysylltiad rhwng yr orsaf reilffordd a'r Stryd Fawr yn un o amcanion hygyrchedd strategol allweddol y Cyngor.

I'r perwyl hwn, caffaelwyd tri eiddo adfeiliedig yn y Stryd Fawr isaf yn 2024 gyda'r bwriad o'u dymchwel i greu coridor datblygu ar gyfer cyflwyno maes cyhoeddus newydd, cyswllt cyfnewidfa i gerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd, canol y dref a'r gyfnewidfa fysiau. Bydd y cynllun dymchwel wedi'i gwblhau erbyn diwedd Haf 2025 ac mae'r cynllun newydd wedi cael caniatâd cynllunio a gobeithio y bydd yn cael ei gyflwyno o ddiwedd 2025, yn amodol ar gyllid.

Mae gwelliannau tebyg yn cael eu datblygu a'u cyflawni ar rwydwaith Teithio Llesol y Cyngor o lwybrau cerdded a beicio. Yn seiliedig ar y Map Rhwydwaith Integredig cymeradwy ar gyfer Merthyr Tudful, mae datblygu a chyflenwi seilwaith Teithio Llesol newydd yn parhau i ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Deuoli'r A465 – Gorchymyn Prynu Gorfodol



Mae Deuoli'r A465 yn gynllun gwella ffyrdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Gyfoedd y Dyfodol drwy Orchymyn Prynu Gorfodol. Cymerodd Gyfoedd y Dyfodol feddiannaeth o wahanol rannau o dir rhwng Dowlais Top a Hirwaun ac maent wedi cwblhau'r gwelliannau i'r ffordd yn ddiweddar gyda'r darn llawn o'r ffordd wedi'i huwchraddio a bellach ar agor i draffig. Mae'r gwaith yn parhau o adfer ardaloedd o'r tir sy'n rhedeg ar hyd y ffordd, ac a darfwynt ar ynt o ganlyniad i'r gwaith o wella'r hewl.

Mae'r Cyngor wedi penodi asiant tir i gynnal trafodaethau ar gyfer yr holl faterion iawndal ar ran y Cyngor a bydd y rhain yn cynnwys cymryd tir, gwahanu, aflonyddwch, anwyldeb niweidiol ac ardaloedd trwyddedu. Bydd holl gostau hyn yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi derbyn taliad ymlaen llaw o iawndal o 90% yn seiliedig ar werthoedd Llywodraeth Cymru a bydd ein hasiantau tir nawr yn delio â chytuno ar y ffigur iawndal terfynol cyn y gall trosglwyddiadau tir gwblhau.

Mae nifer o ymgymerwyr statudol wedi gorfod dargyfeirio offer o ganlyniad i'r cynllun ac rydym wedi gweithio gyda nhw i nodi llwybrau amgen. Bu ardaloedd ychwanegol o dir y tu allan i'r ardal GPG yr oedd Gyfoedd y Dyfodol eu hangen ar gyfer cyfansoddion dros dro ac fe wnaeth asiant tir y Cyngor ymdrin â'r rhain wrth iddynt godi.

Er y credwyd y byddai cyfreithwyr allanol yn cael eu penodi i weithredu ar ran y Cyngor, mae hyn bellach wedi'i adolygu ac mae cyfreithiwr mewnol y Cyngor wedi cynghori y bydd mewn sefyllfa i ddelio â'r trosglwyddiadau tir sydd eu hangen fel rhan o'r GPG.

Uwchgynllun Cyfarthfa



Mae Cynllun Cyfarthfa yn ddogfen strategol 20 mlynedd a fydd yn datgelu pwysigrwydd byd-eang gorffennol diwydiannol Merthyr Tudful ac yn gweithio mewn cytgod â'i amgylchedd naturiol i drawsnewid ardal Treftadaeth Cyfarthfa. Mae'r Cynllun yn ganlyniad i ymgynghoriad helaeth a'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ym Merthyr Tudful a gynhaliwyd dros gyfnod o 5 mis. Arweiniodd hwn at greu tair thema strategol sydd wedi trosi i fwy na 70 o brosiectau gwahanol - hanes a threftadaeth, amgylchedd naturiol a chreadigrwydd cyfoes. Bydd parc 100 hectar, a ffurfiwyd o amgylch yr afonydd y Cymer, y Taf a'r Taf Fechan, yn ehangu ar y 65 hectar presennol i greu 'Parc Cyfarthfa Fwyaf' a bydd yn cwmpasu rhai o'r asedau treftadaeth pwysicaf gan gynnwys Castell Cyfarthfa, Gwaith Hearn a Fferneisi Cyfarthfa, Pont-y-Cafnau a Fferm Pandy. Mae'r Cynllun yn blaenoriaethu prosiectau sy'n ganolog i'w ethos a'i uniondeb ('rhaid ei wneud'), y rhai sy'n cael eu hargymell yn gryf er mwyn i'r Cynllun gyrraedd ei lawn botensial ('dylem ei wneud') a phrosiectau a awgrymir i wella a gwneud y gorau o'r Cynllun ('gallem ei wneud'). Mae hwn yn gynllun holistaidd, meddylgar, wedi'i gynllunio i gyflawni newid trawsnewidiol dros amserlen o ugain mlynedd. Mae ei fanteision yn real ac yn ddiriaethol ac yn y pen draw yn ddangosadwy. Gellir mynd i'r afael â'r effaith economaidd debygol o

ddau safbwynt. Effaith economaidd fwy traddodiadol, dan arweiniad twristiaeth a gyrru ymwelwyr a thrwy adeiladu prosiectau cyfalaf amrywiol sy'n creu swyddi a chynyddu gwariant.

